

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Mehefin 2018

Annwyl Lynne,

Yn dilyn ein cyfarfod ym mis Tachwedd a fy llythyr atoch ym mis Chwefror, roeddwn i am roi gwybod i chi mod i bellach wedi penodi Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim. Rwy'n parhau i groesawu'r craffu gwerthfawr a manwl gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ein dulliau o fynd ati i ddarparu gwaith ieuenctid yng Nghymru ac felly credaf ei bod hi'n briodol y dylech wybod am ganlyniad y broses recriwtio cyn gwneud y cyhoeddiad ffurfiol. Hyderaf y byddwch yn sicrhau y bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol tan hynny.

Byddaf yn gwneud y cyhoeddiad ar 29 Mehefin yn seremoni Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yn Stadiwm Principality Caerdydd. Yn ogystal â hyn, bydd Datganiad Ysgrifenedig hefyd yn cael ei gyhoeddi yn cynnwys manylion enillwyr eleni. Ar ôl dilyn egwyddorion y broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ac ar ôl ystyried nifer o geisiadau gan ymgeiswyr uchel eu safon, rwyf wedi penodi Keith Towler i swydd y Cadeirydd. Fe wyddoch mai Keith yw Cadeirydd Annibynnol Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, ei fod cyn hynny wedi llenwi swydd Comisiynydd Plant Cymru, a'i fod hefyd yn Aelod Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Cefais gyfarfod â Keith ar 25 Mehefin gan bwysleisio bod gen i ddisgwyliadau uchel ar gyfer y Bwrdd hwn a'i rôl fel Cadeirydd. Yn ein trafodaeth, cytunwyd na ddylid ailadrodd yr hyn a wnaed yn y gorffennol. Mae gennym bellach gyfle i feddwl yn greadigol ac ystyried y ffordd orau o symud ymlaen wrth i ni ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd hirdymor. Bydd sgiliau, gwybodaeth a phrofiad Keith oll yn bwysig wrth gefnogi'r agenda hon ac wrth i ni gydweithio i sicrhau cyfeiriad strategol i waith ieuenctid yng Nghymru.

Yn gywir

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.